
Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 23 Gwanwyn 2013



Cook Communications Ministries

**"Ac er imi wedyn ei wadu yn ffôl,
Cymerodd fi, Seimon, i'w fynwes yn ôl."**

*Annwyl ffrindiau,*

Diau y cawsom i gyd y profiad anffodus o racsan neu dorri rhywbeth yn ddarnau – dilledyn, cwpan, plat, neu ddarn o wydr efallai, rhyw declyn bach pitw nad oedd angen i ni boeni’n ormodol yn ei gylch. Ond beth petai’r teclyn hwnnw’n dlws neu’n addurn gwerthfawr? Dychmygwch y siom a deimlem o golli trysor oedd wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau am i ni fod mor ddiofal a’i adael i syrthio rhwng ein dwylo i’r llawr. Efallai mai ein hadwaith ar y pryd oedd ystyried a allem roi’r darnau yn ôl at ei gilydd, ond buan y chwalwyd ein gobeithion wrth i ni sylweddoli nad oedd hynny’n mynd i fod yn bosibl. Sut oeddem wedyn yn mynd i dorri’r newydd drwg wrth y teulu? Ond efallai mai penderfynu cadw’r cyfan yn dawel a wnaethom yn y gobaith na fyddai neb yn sylwi.

Rhyw brofiadau tebyg gafodd y disgyblion wedi’r croeshoelio. Rhyw griw bach digalon oedden nhw, pobl siomedig ac isel eu hysbryd, a’u ffydd wedi’i rhwygo’n ddarnau. Roedd popeth a fuasai o werth yn eu bywydau wedi’i racsan yn llwyr. Mae’n amlwg mai dyddiau anodd ac ingol oedd y dyddiau hynny i ganlynwyr Iesu. Roedd hi’n ymddangos fel petai’r hen amseroedd da o fod yn ei gwmni nos a dydd wedi diflannu am byth. Roedd Jwdas wedi’i fradychu, Pedr wedi’i wadu, a phob cyfeillach wedi’i darnio. Sut oedd deall yr hyn oedd wedi digwydd ar Galfaria? Roedd y cyfan yn ddirgelwch llwyr.

Ond os yw neges y Pasg yn rhannol yn neges am rwygo y mae hefyd yn neges am gyfannu, am bobl yn rhoi pethau ’nôl at ei gilydd ac yn cael gafael ar y gwirionedd, neu efallai mai’r gwirionedd sy’n mynnu cael gafael arnyn nhw. Dyna oedd profiad Thomas yr Anghredadun. Mynnai weld â’i lygaid ei hun cyn y gallai dderbyn y gwirionedd ond ar ôl iddo ddod wyneb yn wyneb â’r Crist byw yn yr oruwchystafell fe brofodd ryw eiliad atgyfodedig fawr, yn union fel y disgyblion eraill wythnos ynghynt. Dyna hefyd fu profiad Mair Magdalen yn yr ardd, a’r ddau ddisgybl ar ffordd Emaus. Bu bron i Pedr golli’r dydd wrth iddo wadu ei Feistr deirgwaith ond ar lan Môr Tiberias fe’i cyfannwyd a’i adfer i’r flaenoriaeth yr oedd wedi’i hennill ynghynt, oherwydd nid mewn dicter a siom yr edrychodd Iesu arno ond mewn tosturi a chariad.

Pan fo pethau yn cael eu rhacsan yn ein bywydau, fel a ddigwyddodd ym mywyd Pedr, mae'r Iesu bob amser yn barod i'n nerthu drwy roi cyfle newydd i ni: "Ac er imi wedyn ei wadu yn ffôl, / Cymerodd fi, Seimon, i'w fynwes yn ôl." ('Seimon, mab Jona', I. D. Hooson) *With the breaking comes the re-making.*

Rhaid i ninnau geisio ein heiliadau atgyfodedig. Nid ydym o anghenraid yn mynd i weld Crist ar ei newydd wedd y Pasg hwn yn cerdded i mewn drwy ddrysau caeedig, nac ychwaith yn ymddangos o'n blaen fel rhyw ddrychiolaeth ar lan y llyn. Ond efallai y'i gwelwn ef mewn gweddi ac addoliad, yn y weithred o estyn maddeuant i gyfaill, neu wrth ymwrthod â'r demtasiwn o wneud rhywbeth sy'n groes i'w ddysgeidiaeth. Un o wirioneddau mawr yr Efengyl Gristnogol, ac sy'n cyrraedd ei uchafbwynt yn yr Atgyfodiad, yw'r nerth a gawn i'n cymodi ein hunain nid yn unig â Duw, ond â phawb yn ddiwahân. Grym iachusol yw grym yr Atgyfodiad bob amser.

Ceir sawl adroddiad gwahanol yn yr Efengylau am y Crist Atgyfodedig yn ymddangos i'w ddisgyblion, ond mae un peth yn gyffredin rhynddynt. Daw'r Iesu at ei ddilynwyr yn eu cyflwr emosiynol bregus gan gyffwrdd â'u calonnau trist. Daw atom ninnau heddiw hefyd, yn dyner ac yn sensitif, am ei fod yn awyddus i roi i ni ein heiliadau atgyfodedig ein hunain fel y cawn ein hadfer i berthynas gyflawn ag ef. Am hynny, ni raid i ni ofyn iddo, "Pwy wyt ti?" Byddwn yn gwybod pan ddaw mai yr Arglwydd ydyw.

Tyred Arglwydd cu, i'r canol,
Gad in weld dy rasol wedd;
Dyro glywed dy hyfrydlais,
Wrth ein henaid traetha hedd:
Hyn fydd ddigon
O lawenydd ac o wledd.

*Dafydd Jones o Gaeo*

Pasg hapus i chi i gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris* (Bugail)

# Tudalen y Plant


## 32: Iesu a Pedr

Ioan 21: 1 - 19



## Gofala am fy nefaid. (Ioan 21: 16)

Pa wialen sy'n dal y pysgodyn?



1. Aeth y disgyblion i bysgota ar y — ad.1
2. Faint aeth i bysgota? — ad.2
3. Aethant oll gyda'i — ad.3
4. Syniad pwy oedd o? — ad.3
5. Pwy oedd yno yn y bore? — ad.4
6. Roedd o'n sefyll ar y — ad.4
7. Wnaethon nhw ei adnabod? — ad.4
8. Beth welsant ar ôl glanio? — ad.9

9. Enw arall ar Pedr — ad.2

10. Roedd yna 153 ohonynt — ad.11
11. Ar ôl bwyta cafodd Iesu sgwrs gyda — ad.15
12. Gofynnodd iddo fugeilio ei — ad.16.
13. Beth alwodd Pedr Iesu? — ad.17

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn diwedd Ebrill.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Elin Griffiths, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

*Manylion Cyswllt y Gweinidog:*
*Y Parch Wyn Morris,*
*Berwynfa, Penrhyn-coch,*
*Aberystwyth, SY23 3EW*
*01970 820939*
*berwynfa@btinternet.com*

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c***

| | |
|---|---|
| 12 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>yng Nghapel y Morfa am 10 a 5.30 o'r gloch<br>Arweinydd Cymanfa'r Oedolion: Mrs Margaret Daniel |
| 20 Mai | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 21 Mai | Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De<br>Capel Heol y Dŵr, Caerfyrddin |
| 22 Mehefin | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Elim, Llanddeiniol, am 1.30 o'r gloch |
| 23 Mehefin | Oedfa i ddathlu hanner canmlwyddiant<br>y Parchedig Ddr John Tudno Williams yn y Weinidogaeth<br>Capel Seion am 11 o'r gloch |
| 30 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul<br>Canolfan y Morlan am 11.15 o'r gloch |
| 14 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## *Gwasanaeth Sefydlu yng Nghapel Pen-llwyn*

Gyda'r haul yn gwenu i'n hatgoffa o ddyfodiad a dechreuad y gwanwyn, fe'n hatgoffwyd ddydd Sadwrn, 2 Mawrth, yng Nghapel Pen-llwyn o sawl dechreuad. Nodai'r diwrnod ddechreuad newydd yn hanes yr eglwys, cyfnod o fod dan weinidogaeth bugail ar ôl dwy flynedd ar bymtheg heb weinidog. Disgrifiwyd y digwyddiad yn nhermau breuddwyd yn cael ei gwireddu ac roedd ymdeimlad o lawenydd a gobaith yn rhedeg trwy'r gwasanaeth. Clywyd y gair 'braint' yn cael ei ynganu droeon – braint yr eglwys o gael gweinidog, braint o fod yn bresennol yn y cyfarfod, braint o gael gwasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist ond ynghlwm â phob braint fe'n hatgoffwyd o'n cyfrifoldebau ac fe'n heriwyd i feddwl o ddifrif am y cyfrifoldebau hynny. Yn ei siars, nododd y Parch Wynne Davies fod cyfrifoldeb arnom i gyd yn yr oes sydd ohoni, gyda chymaint o drai ar Gristnogaeth, i wahodd pobl i rodio ar hyd 'y ffordd'.  Geiriau ei destun oedd Eseia 35, adnod 10: 'A gwaredigion yr Arglwydd a ddychwelant.'

Wrth wahodd, dylem gofio ein bod yn gwahodd pobl i deithio ar hyd ffordd dda, ffordd ddiogel a ffordd ddedwydd. Cawsom ein hatgoffa mai 'Iesu Grist yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd' a bod gwir ystyr bywyd i'w gael yn unig ynddo Ef. Ein dyhead fel pobl Dduw yw gweld eraill yn ymuno â ni ar hyd y ffordd arbennig hon. Gyda'r ceir yn gwibio heibio y tu allan i'r capel, ni ellid llai na meddwl pa mor braf y byddai hi pe bai'r un prysurdeb i'w weld yn ein capeli.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Lywydd yr Henaduriaeth, sef Mr John Griffiths a chymerwyd rhan gan y Parchedigion Roger Ellis Humphreys, Nicholas Bee ac  Eifion Roberts. Cyflwynwyd y gweinidog yn annwyl iawn gan Mr John Leeding, Ysgrifennydd Pwyllgor yr Ofalaeth, gan gyfeirio at ei ffyddlondeb, ei hynawsedd a'i ddidwylledd a'i ymroddiad i weithio oherwydd ei ffydd a'i wir ddyhead i weithio dros ei Arglwydd, ac nid er mwyn cadw drws ar agor. Croesawyd y Parch Wyn Morris ar ran eglwys Pen-llwyn gan Mrs Heulwen Lewis a chyfeiriodd hithau'n benodol at ein braint a'n cyfrifoldebau ni fel aelodau. Canodd plant Ysgol Sul Pen-llwyn gân fel arwydd o'u croeso hwythau i'r gweinidog newydd ac roedd geiriau eu hemyn yn adleisio neges gyffredinol y gwasanaeth. Yn wir, gellid crynhoi holl neges y gwasanaeth yn y cwestiwn a geir yn llinell gyntaf yr emyn: 'Ddowch chi law yn llaw gyda Iesu Grist?' Cwestiwn syml ond cwestiwn sy'n her i bob un ohonom. Ymatebodd y gweinidog i'r siars a'r croeso gyda geiriau pwrpasol.



Ein gweddi fel eglwys yw y bydd geiriau'r emyn a ddyfynnwyd gan y Parch Wynne Davies yn ei anerchiad yn wir gyffes o'n ffydd ni i gyd:

Tydi yw'r ffordd a mwy na'r ffordd i mi,
tydi yw ngrym.

Wrth wynebu'r dyfodol, rydym yn ymwybodol mai pobl wan ydym ni ond rhaid i ni edrych tuag yr Un a all ein nerthu:

O rymus Un, na wybu lwfwrhau,
dy nerth a'm ceidw innau heb lesgáu.

Wrth ddechrau ar gyfnod newydd yn hanes eglwys Pen-llwyn, gweddïwn ar i Dduw ein nerthu fel gweinidog ac fel aelodau i fod yn ffyddlon i'n Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist.

Wedi'r gwasanaeth cafwyd cyfle i fwynhau cymdeithas bellach yn y festri lle roedd gwledd wedi ei pharatoi gan chwiorydd capel Pen-llwyn.

**Bedydd** Yn dilyn ein cyfarfod llewyrchus ddydd Sadwrn, cawsom oedfa fendithiol arall ar y Sul dan arweiniad ein Gweinidog, Y Parch Wyn Morris, wrth i Dafydd John a Dyfrig Lloyd gael eu bedyddio. Efeilliaid Catrin ac Elystan Evans, Ardwyn, yw'r babanod a brodyr Owen ac Ania. Dymunwn yn dda i'r teulu bach ac i tad-cu a mam-gu, Arnold a Cynthia, heb anghofio Celia ac Elfyn. Braint oedd cael eu derbyn i gymdeithas yr Eglwys, ac edrychwn ymlaen yn hyderus at eu cwmni hwythau gyda ni yn yr Ysgol Sul gyda hyn.

## *Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth*



Bore Sul, 24 Chwefror, daeth cynulleidfa luosog ynghyd o eglwysi'r ofalaeth a Chapel Noddfa i'n hoedfa flynyddol i ddathlu gŵyl ein nawddsant, dan arweiniad y Gweinidog. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan y plant a'r ieuenctid, dan arweiniad Mrs Mair Lewis; darllenwyd cerddi a gweddïau a chyfeiriwyd at sawl 'llan'. Cafwyd stori Dewi ar lafar ac mewn llun, yn ogystal â neges bwrpasol gan y Gweinidog ar eiriau olaf enwog Dewi: 'Byddwch lawen, cadwch eich ffyrdd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain'. Gwnaed casgliad o £125 tuag at ward y plant, Ysbyty Bronglais.

### *CIC*

Ar 21 Chwefror fe gasglodd aelodau CIC lond trol o fwydydd i'w rhoi i 'Stordy Jiwbilî' sy'n darparu bwyd i bobl leol Aberystwyth sydd mewn argyfwng. Diolch i aelodau CIC am eu gwaith caled yn casglu'r bwydydd.

Nos Iau, 21 Mawrth, daeth rhaglen tymor y gwanwyn i ben gyda pharti i ddathlu'r Pasg

Bydd y clwb yn ailddechrau ar ôl y gwyliau ar 25 Ebrill, ac edrychaf ymlaen at eich gweld.

*Eleri Barder*
*Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion*




Dafydd John a Dyfrig Lloyd ym mreichiau'r Gweinidog yn dilyn eu gwasanaeth bedyddio ym Mhen-llwyn.

**Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yng Nghapel y Garn, 1 Mawrth**

***'Bûm yn ddieithr a rhoesoch i mi groeso'***

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd eleni yng Nghapel y Garn a daeth nifer dda ynghyd i uno â'n cyd-chwiorydd ar draws y byd mewn diwrnod o weddi. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan chwiorydd y Garn, Noddfa ac Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn, a chafwyd anerchiad pwrpasol gan y Barchedig Judith Morris.

Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Ffrainc ac fe'i seiliwyd ar eiriau'r Arglwydd Iesu o Efengyl Mathew: 'Bûm yn ddieithr a rhoesoch i mi groeso. Daw'r adnod hon o Ddameg y Farn Fawr lle mae pobl yn cael eu didoli fel defaid a geifr ar sail un egwyddor sylfaenol, sef eu hymddygiad tuag at rai llai ffodus yn eu plith. Fe'n heriwyd i wasanaethu cyd-ddyn mewn ysbryd o gariad anhunanol a diymhongar yn union fel y gwelwyd ym mywyd Iesu ei hun, a chawsom ein hatgoffa gan chwiorydd Ffrainc o ddifrifoldeb neges yr Efengyl.

Diolch i bawb a gymerodd rhan yn yr oedfa ac am y lluniaeth a ddarparwyd wedi'r oedfa. Braf oedd cael cyfle i gymdeithasu o gwmpas y byrddau dros baned o de.

**Cymanfa Ganu Unedig**

**Gogledd Ceredigion**

12 Mai 2013

Capel y Morfa, Aberystwyth

Arweinydd: Mrs Margaret Daniel

Organydd: Mrs Mary Jones Morris

10 y bore a 5.30 yr hwyr


*Rihyrsals am 7 o'r gloch*

| | |
|---|---|
| 27 Mawrth | Bethel, Aberystwyth |
| 10 Ebrill | Capel y Garn |
| 17 Ebrill | Seion, Aberystwyth |
| 24 Ebrill | Horeb, Penrhyn-coch |
| 8 Mai | Capel y Morfa, Aberystwyth |

***Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth***

Mae croeso cynnes i chi ymuno â'r dosbarth a gynhelir yn wythnosol, gan amlaf am 2 o'r gloch ar brynhawn dydd Mawrth yn festri Capel y Garn.

Ar ôl seibiant dros wyliau'r Pasg bydd y grŵp yn parhau â'i daith gronolegol drwy'r Beibl yn dilyn y gyfrol *Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn*, sef addasiad Meirion Morris o gampwaith John Stott, *Through the Bible, Through the Year: daily reflections from Genesis to Revelation*.



# Ebrill

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul unedig yn cyfarfod yng Nghapel Noddfa*

**7** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn am 5 o'r gloch dan arweiniad y Parch Roger Ellis Humphreys

10 Cymdeithas y Chwiorydd yn mynd allan am de
Am ragor o fanylion, cysylltwch â Shân Hayward

**14** Parch Adrian Williams

**21** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

**28** Mr Aled Lewis Evans

***Cyflwyniad arbennig ar gyfer y Pasg***

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Nos Wener, 5 Ebrill am 7.30 o'r gloch yn y Stiwdio

'Gospel of Matthew' gan George Dillon

Portread dwys, cyfoes a chyffrous o stori Efengyl Mathew sydd wedi cael ei ganmol yn hael gan feirniaid mewn theatrau ac eglwysi drwy Brydain: 'Peidiwch â meddwl mai i ddwyn heddwch i'r ddaear y deuthum.' (Mathew 10:34)

Llongyfarchiadau calonnog:

i nifer o'r ieuenctid ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod Penweddig, gan gynnwys Meinir Williams, enillydd y gadair, a Rhun Penri, a enillodd y wobr am y Perfformiwr Gorau

i Ieuan a Glenwen Thomas ar enedigaeth ŵyr, Iestyn, mab bach i Catrin a Phill, ar 24 Tachwedd

i Bryn a Meinir Roberts ar enedigaeth wyres, Mari Fflur, merch i Iwan a Nerys a chwaer fach i Iestyn, ar 10 Mawrth.

Pob dymuniad da i Michael, Amanda a Violet Roberts, Tŷ Capel gynt, yn eu cartref newydd yn y Borth, a diolch i Michael ac Amanda am eu gwasanaeth fel gofalwyr ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 'Viva Guatemala' at waith Cymorth Cristnogol yn Guatemala, Canolbarth America. Anfonwyd siec o £1,716 ar ran Capel y Garn, a chalonogol oedd clywed bod y nod o £200,000 wedi ei gyrraedd.

Dywedodd Mari Fflur, Pennaeth Cyfathrebu Eglwys Bresbyteraidd Cymru:

"Wedi treulio pythefnos gyda phartneriaid Cymorth Cristnogol yn Guatemala, rydw i'n gwybod y bydd £200,000 yn mynd yn bell iawn. Mae Guatemala yn wlad hardd ond mae'n hynod o anghyfartal – mae tri o bob pump o bobl yn byw ar lai na $1 y dydd. Does gan chwarter y boblogaeth ddim digon i'w fwyta ac mae bron hanner y plant dan bum mlwydd oed yn dioddef o ddifyg maeth cronig. Mae stormydd, llifogydd a chorwyntoedd yn fygythiad rheolaidd i lawer o gymunedau tlawd ac mae trais yn broblem enfawr, yn enwedig yn y brifddinas, Dinas Guatemala. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i alluogi rhai o bobl Guatemala i godi eu hunain o'u tlodi enbyd."

## Mai

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie T Jenkins*

*Bydd yr ysgol Sul unedig yn cyfarfod yn y Garn*

**5** Mr Lyndon Lloyd

**12** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, am 10 a 5.30 o'r gloch

**19** *Sul y Pentecost*
Oedfa Cymorth Cristnogol am **10.30** o'r gloch
dan arweiniad y Bugail
Cinio Bara a Chaws i ddilyn
Oedfa gymun am 5 o'r gloch

**26** Parch R W Jones

### *Y Garn i'r Dyfodol*

Bore Sul, 17 Mawrth, cynhaliwyd Cyfarfod Eglwys yn y Garn. Diben y cyfarfod oedd rhoi cyfle i'r aelodau gynnig sylwadau ar y ffordd ymlaen i'r achos yn y Garn. Arweiniwyd y drafodaeth, ar ran y swyddogion, gan Dewi Hughes. Mynegwyd barn a chyflwynwyd sawl sylw ac awgrym gan nifer o'r rhai oedd yno. Yn ychwanegol at hyn cyfeiriwyd at sylwadau a dderbyniwyd yn ysgrifenedig gan rai oedd yn methu bod yn bresennol. Yn dilyn y cyfarfod penderfynodd y swyddogion osod Blwch Awgrymiadau yn y festri. Croeso i chi ddefnyddio'r blwch neu anfon eich awgrymiadau at Alan Wynne Jones, Ysgrifennydd y Capel, erbyn dydd Llun, 15 Ebrill. Ar ôl derbyn yr holl sylwadau hyn bydd y swyddogion yn ystyried y camau nesaf yn y drafodaeth bwysig hon ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau yn y dyfodol agos.

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan*

*Bydd yr ysgol Sul unedig yn cyfarfod yng Nghapel Noddfa*

**2** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
Oedfa'r hwyr yn y Garn – i'w threfnu

**9** Parch W J Edwards

**16** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**23** Parch Eric Greene

**30** Parch Christopher Prew

Gŵyl yr Ysgolion Sul yng Nganolfan y Morlan
am 11.15 o'r gloch

***Gofalwyr Newydd i Gapel y Garn***

Estynnir croeso cynnes i ofalwyr newydd Capel y Garn, sef James a Katie-Hellen January-McCann, a fydd yn symud i fyw i'r Tŷ Capel cyn diwedd Ebrill.

Pob dymuniad da iddynt a gobeithiwn y byddant yn hapus iawn yn ein plith.



Bedyddiwyd Moi Tudur Schiavone, mab bach Owain a Lowri Schiavone, a brawd Llew Ifan gan y Gweinidog mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Garn bore Sul, 17 Mawrth.

**Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De**

*Capel Heol y Dŵr, Caerfyrddin*

Dydd Mawrth, 21 Mai 2013

Siaradwyr:

am 2 o'r gloch
Sarah Morris, Caerdydd

am 5 o'r gloch
Dr Catrin Haf Williams
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

# Eglwysi Presbyteraidd (M.C.)

## Babell, Dolybont; Libanus a Soar, Borth

RHAGLEN

# Cyfarfod Sefydlu


**Mr. John Tudno Williams, B.A.**

Yn Weinidog ar yr Eglwysi uchod

**Dydd Gwener, Medi 20fed, 1963**

am 6.30 o'r gloch yn Soar, Borth

*Gwahoddir chwi yn gynnes i'r Cyfarfod a darperir lluniaeth yn y Festri cyn y Cyfarfod.*



Mr. John Tudno Williams, B.A.

Llongyfarchiadau calonnog iawn i’r Parchedig Ddr John Tudno Williams ar ddathlu hanner canmlwyddiant yn y weinidogaeth.

Brodor o’r Fflint ydyw, ac fe gafodd ei addysg yn Lerpwl a Llundain. Astudiodd Ddiwinyddiaeth yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, cyn dod yn fyfyriwr diwinyddol yn y Coleg Diwinyddol Unedig ac yn fyfyriwr ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth, lle’r enillodd ddoethuriaeth ar gefndir Iddewig Efengyl Ioan.

Cafodd ei ordeinio yn 1963 a bu weinidog ar eglwysi Babell, Dôl-y-bont; Libanus a Soar, y Borth, am ddeng mlynedd cyn ymuno â staff y Coleg Diwinyddol yn 1966. Bu’n ddarlithydd yno am 37 mlynedd, ac yn brifathro rhwng 1998 a’i ymddeoliad yn 2003. Cafodd yrfa academaidd ddisglair a daeth anrhydeddau lu i’w ran, gan gynnwys ei ethol yn Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a Lloegr yn 1990 a Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 2006/7. Roedd hefyd yn aelod o Banel Cyfieithu’r Testament Newydd ar gyfer y Beibl Cymraeg Newydd (1988).

Ochr yn ochr â’r yrfa academaidd, mae wedi parhau i weinidogaethu a phregethu’r Gair, a gwyddom yn yr ofalaeth hon am ei ymroddiad ef a’i briod, Ina, yn cynorthwyo gyda chynnal yr achos yng Nghapel Seion.

## Newyddion Seion

Fore Sul, 25 Ionawr, a'r Gweinidog yn gwasanaethu, bedyddiwyd Manon Grug, merch Aled a Nia Lewis, Capel Bangor, chwaer Megan ac Ifana. Dymunwn bob bendith i'r teulu ac i'r ddwy fam-gu, Ann Jones, Wernheli, a Heulwen Lewis, Deiniol, Capel Bangor.

Yn yr Ysgol Sul ganol Chwefror cafwyd cyfle i longyfarch John Gwyn Jones, Awelon, ar ei wasanaeth fel llyfrgellydd am dros bedair a deugain o flynyddoedd yng Ngheredigion, a'r mwyafrif ohonynt wedi eu treulio ar y Fan Lyfrau Deithiol ar draws y sir. Dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad gan gofio hefyd am Olwen a'r teulu i gyd wrth iddynt wynebu cyfnod newydd yn eu hanes.

Nos Wener, 1 Mawrth, cynhaliwyd Oedfa Weddi Fyd-eang y Chwiorydd yn Seion. Y siaradwraig wadd oedd y Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, a chafwyd ganddi neges berthnasol a heriol ar y thema 'Bûm ddieithr a rhoesoch i mi groeso'. Arweiniwyd yr oedfa gan Eirlys Williams a hi fu'n gyfrifol am baratoi arddangosfa o Ffrainc am mai gwragedd o'r wlad honno a luniodd y rhaglen. Cymerwyd at y rhannau eraill o'r rhaglen gan aelodau a ffrindiau Seion.

Bu farw dwy o aelodau a fu'n ffyddlon iawn yn Seion, sef Mrs Dilys Lloyd, Penbryn, a Mrs Mair Evans, Glaslyn (y Garej gynt). Y Gweinidog fu'n gwasanaethu yn eu hangladdau yn y capel a chladdwyd y ddwy ym mynwent Seion. Cydymdeimlwn â Jane a Mari, merched Dilys Lloyd a'u teuluoedd ac ag Einir a Glenda, merched Mair Evans a'u teuluoedd.

Yn oedfa fore Sul, 23 Mehefin, yn Seion, am 11.00 o'r gloch dethlir hanner canmlwyddiant y Parchedig John Tudno Williams yn y weinidogaeth. Y Gweinidog fydd yn llywyddu, ceir cyfarchion o Lundain, y Borth a Seion, a John Tudno fydd yn pregethu. Estynnir croeso cynnes i chi ymuno yn y dathliad.

Dathlu'r 60! – Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu
24–26 Mehefin 2013
Canolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ
Mwy o wybodaeth gan: Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Ty-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam, LL14 1EL
E bost: geraint.w.jones@btinternet.com

**Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Rehoboth**

Cyfarfu'r Chwiorydd yn festri Capel Rehoboth brynhawn Mawrth, 11 Rhagfyr, ac estynnodd Myfanwy Rowlands groeso i'r Parchedig Richard Lewis, Bow Street, a ddaeth atom ar fyr rybudd. I ddechrau, gwrandawyd ar garol plygain cyn iddo ddarllen darn o'r enw 'Gyrru'r gwyddau' a oedd yn sôn am yr hen arferiad o gerdded gwyddau o Gymru i farchnadoedd yn Lloegr ers talwm, ac yna ddarn o hunangofiant Elfed ynglŷn â dydd Nadolig. Mae gan Mr Lewis ddiddordeb mewn casglu pethau sydd â chysylltiad Cymreig, yn enwedig hen lyfrau ac addurniadau. Darllenodd ddarnau allan o amryw o'r llyfrau a oedd yn ymwneud â'r ardal yma, a daeth â rhai o'r addurniadau i'w dangos. Gwrandawyd ar garol plygain arall i gloi. Diolchwyd iddo am brynhawn difyr iawn gan Ann Jenkins, yna mwynhawyd te a mins peis wedi eu paratoi gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

Yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 8 Ionawr, estynnodd Myfanwy Rowlands groeso i'r ffotograffydd o Aberystwyth, Mr Keith Morris. Mae ef yn ffotograffydd sy'n tynnu lluniau yn yr ardal yn feunyddiol ac felly'n creu cofnod o ddigwyddiadau, pensaernïaeth, a siopau'r ardal cyn i bethau newid. Mae'n hoffi cerdded ar y promenâd gan sylwi ar yr hyn mae pobl yn ei wneud, a thynnu eu lluniau. Dangosodd nifer o sleidiau o'r lluniau diddorol a dynnodd dros y blynyddoedd o bobl ac adeiladau, gyda nifer o'r adeiladau hynny yn Aberystwyth wedi eu dymchwel erbyn hyn. Diolchwyd i Mr Morris am brynhawn difyr iawn gan Non Griffiths, a pharatowyd y te gan Ann Jenkins, Tegwen Jones a Margaret Jones.

Croesawyd yn ôl y llenor Manon Rhys i'r cyfarfod ar brynhawn Llun, 18 Chwefror, a chlywsom ail ran y sgwrs a draddododd ar ei hymweliad cyntaf y llynedd. Mae wrth ei bodd yn dychwelyd i Geredigion gan fod gwreiddiau ei theulu mewn tri man arbennig yma, sef Tregaron, Ffos-y-ffin ac Aberystwyth. Tra oedd yn aros yn Aberystwyth am rai dyddiau bu'n gwneud ymchwil ar gyfer ei nofel newydd, ac yn dilyn ei llwybrau pan oedd yn fyfyrwraig yn Adran y Gymraeg yn yr Hen Goleg ynghanol bwrlwm y 1960au. I orffen, darllenodd ddarnau byr o'r nofel newydd, gyda phob un ohonom yn edrych ymlaen i'w darllen pan gaiff ei chyhoeddi. Diolchwyd iddi am brynhawn difyr iawn gan Carys Briddon. Avril Bond ac Ann Humphreys oedd yng ngofal y te.

Ffeithiau Hynod Yn Nghylch
Y Beibl

Rhif Llyfrau yn y Beibl ..... 66
Penodau yn y Beibl ..... 1,19[illegible]
Adnodau yn y Beibl ..... 31.173
Geiriau yn y Beibl ..... 773.74[illegible]
Llythyrenau yn y Beibl 3,566.48[illegible]
Cynnwysa yr Apocrypha 183 o benodau
[illegible]81, o adnodau a 125185, o eiriau
Penod ganol ar leiaf yn y Beibl ydyw
Salm cxvii Mae'r gair "ac" yn digwydd
10,684 o weithiau yn yr Hen Destament
[illegible]igwydda y gair "Jehofa" 6,855 o weithi[illegible]
Yr adnod leiaf yn yr hen Destament
ydyw i chronicl i 25,
Cynnwysa Ezra vii, 21 holl lythrenau y[illegible]
Wyddor seisnig y mae 2. Bren, xix ac Esia[illegible]
xxxvii yr un fath au gilydd. Ni chynnwys[illegible]
llyfr Esther yr enw "Arglwydd" na "Du[illegible]
[illegible]dnod leiaf yr Testament Newydd
[illegible] 3,5 [illegible] [illegible]nuary 1885[illegible]

## *Ffeithiau Hynod Ynghylch y Beibl*

Rydw i'n ddiolchgar iawn i Mrs Ray Evans, Maes Ceiro, am roi benthyg dogfen ddiddorol iawn i mi, a hefyd i Mrs Ann Elias, Llanrhystud, am wybodaeth bellach am hanes y ddogfen. Fe ddaethpwyd ar ei thraws ymysg papurau'r diweddar John Thomas Evans, Caergywydd, ac mae'n debyg ei bod yn eiddo i Mary Edwards, ei hen nain, a aned yn 1843, oherwydd mae'r groes a ddefnyddiodd Mary Edwards ar ei hewyllys i'w gweld ar waelod y ddalen, yn ogystal â'r dyddiad 'January 1885'.

Mae'n rhestr ddiddorol, a cheisiwyd atgynhyrchu'r ffeithiau isod, gan ychwanegu mewn bachau petryal rifau a gwybodaeth a gafwyd drwy chwilio ar y we. Efallai mai cyfieithiad o'r Saesneg ydyw, oherwydd ymddengys mai at y Beibl Saesneg y cyfeirir.

| | |
|---|---|
| Rhif Llyfrau yn y Beibl | 66 |
| Penodau yn y Beibl | 1,19[0] [1,189 yn ôl rhai ffynonellau] |
| Adnodau yn y Beibl | 31,173 |
| Geiriau yn y Beibl | 773,746 773,74[6] |
| Llythrennau yn y Beibl | 3,566,480 |

Cynhwysa yr Apocryffa 183 o benodau, [6]081 o adnodau a 125,185 o eiriau [mae'n debyg mai gwall am 152,185 yw hwn]

Y bennod ganol a'r leiaf yn y Beibl yw Salm CXVII – [(1) Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd; clodforwch ef, yr holl bobloedd. (2) Oherwydd mae ei gariad yn gryf tuag atom, ac y mae ffyddlondeb yr Arglwydd dros byth. Molwch yr Arglwydd.]

Mae'r gair 'ac' yn digwydd 10,684 o weithiau yn yr Hen Destament [Mae'n debyg mai'r gair Saesneg 'and' a olygir yma]

Digwydda y gair 'Jehofa' 6855 o weithiau

Yr adnod leiaf yn yr Hen Destament ydyw 1 Cronicl 1:25 [sef, Heber, Peleg, Reu – lle rhestrir llinach Adda hyd at Abraham]

Cynhwysa Esra VII:21 holl lythrennau yr wyddor Saesneg: [And I, even I Artaxerxes the king, do make a decree to all the treasurers which are beyond the river, that whatsoever Ezra the priest, the scribe of the law of the God of heaven, shall require of you, it be done speedily. N.B. Bydd y rhai mwyaf craff wedi sylwi nad yw'n cynnwys y llythyren 'j']

Y mae 2 Bren XIX ac Eseia [XX]XVII yr un fath â'i gilydd

Ni chynhwysa Llyfr Esther yr enw 'Arglwydd' na 'Du[w]'

Adnod leiaf y Testament Newydd [Saesneg yw Ioan 11:35: sef 'Jesus wept.' Yr Iesu a wylodd. Yng nghyfieithiad 2004: Torrodd Iesu i wylo]

# Digon o Fwyd i Bawb OS

Ym mis Ionawr eleni, daeth grŵp niferus o elusennau dyngarol, gan gynnwys Cymorth Cristnogol a Tearfund, at ei gilydd i lansio ymgyrch newydd gyffrous.

Y nod yw gwneud 2013 yn flwyddyn lle gwelir dechrau'r diwedd ar newyn byd-eang a newid y system fwyd byd-eang. Mae digon o fwyd yn y byd i fwydo pawb, ond nid yw pawb yn cael digon o fwyd i fyw. Mae un ym mhob wyth person ar y blaned hon yn byw gyda phoen newyn. Mae'n annheg, yn anghyfiawn – ac fe ellid ei atal yn llwyr.

Mae ffermwyr gweithgar, yn enwedig merched a'u plant, a phobl gyffredin a bregus ym mhobman yn wynebu'r prisiau bwyd uchaf a welwyd mewn cenhedlaeth. Yn y Deyrnas Unedig, ac yma yng Nghymru, mae niferoedd y bobl sydd angen defnyddio banciau bwyd wedi cynyddu'n aruthrol. Mae effaith y newid yn yr hinsawdd yn gwneud pethau hyd yn oed yn waeth.




Trwy ein gweithredoedd gallwn berswadio llywodraethau i weithredu. Os byddent yn gweithredu, gallai 2013 fod yn ddechrau i roi terfyn ar newyn.

Yn nigwyddiad lansio'r ymgyrch ym mis Ionawr, dechreuwyd llunio 'llwybr graffiti glân'. Bydd y llwybr yn cael ei greu drwy olchi'r palmant dros stensil logo 'Digon o Fwyd i Bawb OS' ac yn ymdroelli ar hyd a lled Cymru, o Gaerydd i Gaergybi, lle gellir croesi i Iwerddon. Ym mis Mehefin, bydd rhaid o arweinwyr mwyaf pwerus y byd (yr G8) yn cwrdd mewn uwchgynhadledd yn Enniskillen, Gogledd Iwerddon, a dyna lle y bydd y llwybr hwn yn arwain.

Bydd cefnogwyr yn rhoi eu henwau i'r ymgyrch sy'n galw ar y Prif Weinidog, David Cameron, i ddefnyddio uwchgynhadledd yr G8 i fynd at wraidd yr argyfwng bwyd a newyn yn y gwledydd tlotaf. Mae Grŵp OS Cymru hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru ac ar bobl Cymru i wneud eu rhan.

Jeff Williams, sydd newydd ymddeol ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Cymorth Cristnogol yng Nghymru am 23 mlynedd yn annerch yng nghyfarfod lansio OS / IF yng Nghastell Caerdydd




Mae'r ymgyrch hefyd wedi derbyn cefnogaeth y cogydd enwog Bryn Williams a'r pencampwr dros y clwydi, Colin Jackson.

Meddai Bryn Williams: 'A minnau wedi fy magu yn Sir Ddinbych yn rhan o deulu estynedig o ffermwyr mae defnyddio cynnyrch lleol sydd wedi ei dyfu yma yng Nghymru wedi bod yn bwysig iawn i mi erioed. Eto, mae newyn byd-eang yn dedfrydu miliynau o blant i farwolaeth oherwydd na all eu teuluoedd dyfu neu fforddio bwyd fel llysiau, llaeth a chig.

Rydym yn byw mewn byd sy'n cynhyrchu digon o fwyd i bob un ohonom, felly beth am weithio gyda'n gilydd i fynd at wraidd y broblem yma. Beth am wneud yn siŵr fod y rhai sy'n byw yng ngwledydd tlotaf y byd yn cael y gefnogaeth, yr adnoddau, y sgiliau a'r tir sydd ei angen arnynt i allu bwydo eu hunain. Gallwch wneud hynny drwy ymuno a chefnogi'r ymgyrch "OS" yng Nghymru.'

Ychwanegodd yr athletwr adnabyddus o Gaerdydd, Colin Jackson: 'Mae'n anghyfiawn fod bron i biliwn o bobl yn mynd i gysgu bob nos ar stumog wag. Mae camau breision wedi eu cymryd i leihau effaith tlodi a lleihau marwolaethau ymysg plant ond mae rhwystrau enfawr i'w taclo wrth drafod newyn.

Mewn byd sy'n cynhyrchu digon o fwyd i bawb, mae hyn yn warth. OS gwnawn ni gydweithio gallwn newid hyn ac rwy'n galw ar bobl Cymru i ymuno gyda mi yn y ras yn erbyn newyn drwy gefnogi'r ymgyrch yma.'

Ychwanegwch eich llais at yr ymgyrch i roi terfyn ar newyn byd-eang.

Dilynwch ar Trydar @EnoughFoodIF #IF #OS; hoffwch ar Facebook

**CRISTNOGAETH21 ABERYSTWYTH**
**YN Y MORLAN**

| | |
|---|---|
| 27 Mawrth | Noson ysgrythur |
| 10 Ebrill | 'Beth mae fe'n feddwl?' Golwg ar Eiconau Eglwys y Dwyrain gyda'r Barch Enid R Morgan |
| 24 Ebrill | Noson ysgrythur |
| 22 Mai | Cyfarfod Blynyddol – edrych ymlaen |

*Yr ail a'r bedwaredd nos Fercher am 7.30 pm*

***Cynhadledd 2013***

***Thema: 'Diwinyddiaeth ar waith yng Nghymru'***

8 Mehefin
yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth

10.45 a.m. tan 4 p.m.

Ymhlith y siaradwyr bydd Vivian Jones, Gethin Abraham Williams, Pryderi Llwyd Jones, Enid Morgan, Cynog Dafis, Aled Jones Williams, Eirian Rees ac Evan Morgan

*Croeso cynnes i bawb*

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Mrs Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow St (01970 828662)
Is-gadeirydd: Owen Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Mehefin:**


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com